CENHEDLOEDD UNEDIG
BLWYDDYN RYNGWLADOL Y MENTRAU CYDWEITHREDOL
Rydym yn creu byd gwell
2012
UNITED NATIONS
INTERNATIONAL YEAR OF CO-OPERATIVES
We build a better world

Pwysigrwydd Arloesi Cymdeithasol
Beth all pobl hŷn yng Nghymru ei ddysgu o Québec?

Dydd Mawrth 7fed Chwefror 2012
2.30pm – 5pm
Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Gyda **Jean-Pierre Girard** yn brif siaradwr a **Rosemary Butler AC** yn noddwr

Mae Jean-Pierre Girard yn ymchwilydd blaenllaw ym maes gofal a thai cydweithredol yn Québec, sy'n 50% o'r fath ddarpariaeth. Maent wedi arloesi gyda dull defnyddiwr gwasanaeth o ganlyniad uniongyrchol i reolaeth y defnyddiwr dros gynllunio a chyflenwi'r gwasanaethau hyn, i ategu gwasanaethau cyhoeddus ac nid eu disodli.

Darparu gofal a thai i bobl hŷn yw un o'r prif heriau sy'n ein hwynebu, fel darparwyr, arianwyr a dinasyddion. Bydd y digwyddiad hwn yn holi a all gwasanaethau wedi'u seilio ar werthoedd ac egwyddorion cydweithredol helpu i oresgyn yr heriau hyn. Mae hefyd yn gyfle i gysylltu â chynghreiriaid posibl i ddatblygu gofal gwell yng Nghymru.

I gadw lle:

- Anfonwch neges e-bost â'r pennawd "Digwyddiad Cydweithredol Québec" at enquiries@cartrefi.org
- Neu ewch i http://bit.ly/WalesQuebec i gadw lle ar lein ac i gael newyddion am ddigwyddiadau'r ymylon
- Neu ffoniwch 01633 266781

Rosemary Butler AC fydd yn ddigon caredig i noddi a rhoi lleoliad ar gyfer y digwyddiad, ar y cyd gyda'r elusen gofal cymdeithasol **Cartrefi Cymru** a **Chydweithredwyr Blaengar Cymru**, sy'n trefnu'r rhaglen gyffredinol.

Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei gefnogi gan The Co-operative Cymru(/Wales) yn ystod Blwyddyn Ryngwladol y Mentrau Cydweithredol 2012, a gynhelir gan y Cenhedloedd Unedig, ochr yn ochr â **Chynghrair Iechyd y Cyhoedd Cymru** a **Chynghrair Bwyd Cymru**.

The co-operative membership
Cymru/Wales